Chwarae Cymru
Play Wales

# Awgrymiadau anhygoel ar gyfer dathlu Diwrnod Rhyngwladol Chwarae yn yr ysgol

**Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi mabwysiadu Diwrnod Rhyngwladol Chwarae blynyddol ar 11 Mehefin bob blwyddyn. Mae'r diwrnod yn cydnabod hawl plant i chwarae a'i bwysigrwydd ar gyfer eu lles.**

**Mae Diwrnod Rhyngwladol Chwarae yn gyfle da i ysgolion feddwl am sut y gellir cynnwys mwy o amser ar gyfer chwarae bob dydd.**

**Dyma ein hawgrymiadau anhygoel ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Chwarae!**

1. Ystyriwch roi amser ychwanegol i chwarae. Gellir gwneud hyn drwy wneud amser cinio yn hirach neu drwy ddarparu amser chwarae ychwanegol.

2. Fyddwch chi ddim angen cynllun gweithgareddau manwl. Os allwch chi gymryd cam yn ôl a goruchwylio o bell, bydd y plant yn fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain ac ennill buddiannau arbrofi a phrofi pethau drostynt eu hunain.

3. Diffinnir rhannau rhydd fel deunyddiau naturiol a synthetig sydd â dim pwrpas penodol. Gofynnwch i rieni a chydweithwyr helpu trwy gasglu adnoddau fel: ffabrig, landeri, tiwbiau a bocsys cardbord, teiars, brigau, tarpolinau, cortyn a rhaffau. Bydd y plant yn greadigol iawn o gael llonydd i chwarae gyda'r adnoddau hyn.

   Dysgwch fwy am ddarparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant yn yr ysgol yn ein taflen wybodaeth: www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau

4. Mae plant yn rhyfeddu at natur, felly meddyliwch am adnoddau sy'n caniatáu i blant archwilio'r pedair elfen yn eu chwarae:

   - **Daear** – teisennau mwd, tywod, clai neu dyllu
   - **Awyr** – barcutiaid, swigod neu faneri
   - **Tân** – addurno canhwyllau, rhostio malws melys neu goginio dros dân gwersyll
   - **Dŵr** – pibelli dŵr, bwcedi, sbwnjis neu ganiau dŵr.

5. Gwnewch yn siŵr bod y plant yn barod trwy roi gwybod i'r rhieni am eich cynlluniau. Anogwch y plant i wisgo hen ddillad a bod yn barod beth bynnag fo'r tywydd. Dyma gyfle gwych i atgoffa rhieni bod chwarae'r tu allan a baeddu'n hynod o fuddiol i les corfforol ac emosiynol plant.



6 Os rhoddwch chi ganiatâd i blant chwarae, maent yn fwy tebygol o chwarae yn eu ffordd eu hunain. Efallai y bydd angen ichi gytuno ar rywfaint o reolau cyffredinol gyda'r oedolion fydd yn goruchwylio ond, fel arall, gadewch i'r plant benderfynu'r hyn sy'n briodol trwy gamu'n ôl.

7 Os rhoddwch chi ddigon o le i blant, bydd yn cefnogi ystod eang o brofiadau chwarae. Os oes gennych gae ysgol, dyma'r amser ichi ei ddefnyddio! Os nad oes gennych gae ysgol, meddyliwch am fannau eraill y gellid eu defnyddio – fel y maes parcio neu beth am ymweld â rhywle cyfagos sydd â digonedd o le i archwilio a chwarae.

8 Os oes gennych dîm datblygu chwarae lleol, cysylltwch â nhw gan y gallan nhw eich cynghori am syniadau eraill ar gyfer Diwrnod Rhynglwadol Chwarae.

9 Mwynhewch. Dylai Diwrnod Rhynglwadol Chwarae fod yn hwyl i blant ac oedolion. Camwch yn ôl ac arsylwi'r profiadau anhygoel gaiff y plant wrth chwarae, fe'i gwelwch yn dysgu, yn trin a thrafod ac yn mwynhau eu hunain.

10 Yn olaf, gofynnwch i'r plant beth oedden nhw'n ei feddwl o'r diwrnod. Os oedd e'n llwyddiant, meddyliwch sut y gallech gynnwys mwy o amser ar gyfer chwarae bob dydd.



Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru

Mai 2025